# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 2il o Fawrth 2017 am 7.30 pm yn Neuadd Ciliau Aeron

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, Gwyn Jones a John Lumley.
Denfer Morgan (Clerc).

## 88 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Emrys Jones, Gwyndaf Morgan, Aneurin Roberts ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## 89 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Chwefror 2017.

## 90 Materion yn Codi o'r Cofnodion

### a) Mynwent Eglwys Cilcennin

Ni chafwyd ateb gan yr Eglwys yng Nghymru hyd yn hyn a gofynnwyd i'r Clerc ddilyn hwn i fyny.

### b) Ymestyn y Llwybr Beicio

Nodwyd bod trafodaethau'n parhau mewn cysylltiad â chyfeiriad y llwybr a chyflwyno cais ar gyfer ei ariannu.

### c) Cais am gymorth ariannol

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i gais Marie Curie Ceredigion a chyfeiriodd y Clerc at y gwybodaeth a roddwyd ganddynt am gost cynnal eu gwasanaeth yn y Sir. PENDERFYNWYD cyfrannu £50.

### d) Gwair ar y ffordd

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cael gwybod gan swyddog o'r Cyngor Sir fod yr heol y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod blaenorol nawr yn glir o unrhyw wair. Nid oedd wedi clywed dim ynghylch y sylwadau a waned parthed Sgwâr Ciliau Aeron.

## 91 Materion Cyllidol

CYTUNWYD talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc: (4ydd Chwarter Ionawr-Chwefror-Mawrth) | £257.02 |
| CThEM(TWE) | £64.25 |
| Costau Swyddfa'r Clerc | £36.28 |
| Tanysgrifiad Blynyddol Un Llais Cymru | £120 |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Archwiliad Allanol) | £141 |
| Mr Alun Jenkins (Archwiliad Mewnol 2013-14) | £50 |
| Mr Gwyn Jones (Archwiliad Mewnol 2014-15) | £50 |
| Neuadd Pentref Cilcennin (Defnydd o'r Neuadd 2016-17) | £70 |
| Neuadd Pentref Ciliau Aeron (Defnydd o'r Neuadd 2016-17) | £70 |

**92 Adroddiad Monitro Cyfrifon 2016-17 Rhif 3**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad a oedd yn dangos gwariant hyd at ddiwedd Chwefror 2017 a NODWYD y gwariant canlynol a'i fod o fewn y gyllideb:

| | |
|---|---|
| Cyllideb 2016-17 | £3761 |
| Gwariant hyd at 28 Chwefror 2017 | £2278.75 |
| Gwariant Disgwyliedig 30 Ebrill 2017 | £3424.29 |

**93 Papur Ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r:

- Papur Gwyn ac yn enwedig Pennod 6 sy'n delio gyda chynghorau bro a thref
- Yr Arolwg a dderbyniwyd a gyfeirir ato yn y Bennod dan sylw.

Nodwyd y cynigion ar gyfer cynghorau bro a thref a PHENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc lenwi'r Arolwg a'i ddosbarthu ymhlith yr Aelodau ar gyfer eu sylwadau cyn ei anfon nôl.

**94 Ciosg BT Ciliau Aeron**

Rhoddwyd ystyriaeth i ymgynghoriad BT a PHENDERFYNWYD peidio gwrthwynebu'r bwriad i gymryd y ciosg i ffwrdd.

**95 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

Cyfeiriwyd at y materion canlynol gan Aelodau:

a) Cafwyd trafodaeth mewn cysylltiad â'r datblygiad posib o ddau darn o dir yng Nghiliau Aeron
b) Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd John Lumley o'r broses ymgynghori a'r amserlen posib ar gyfer datblygu ysgol ardal yn Nyffryn Aeron
c) Cyfeiriodd y Cynghorydd Dai Evans at leoliadiau'r pyst 20 mya newydd yng Nghilcennin ac yn enwedig un a oedd wedi'i leoli ar ganol palmant ac a oedd

yn creu rhwystr; a PHENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc dynnu sylw'r Cyngor Sir at hwn.

d) Cyfeiriodd y Cynghorydd Gwyn Jones at gwynion a dderbyniwyd o hyd am y rwystr a greir gan foncyff y goeden ar yr A482 yn ardal tro Neuaddlwyd a bod angen cymryd camau i'w wneud yn fwy amlwg i yrrwyr bysus a lorïau.
e) Dywedodd y Cynghorydd Arwel Jones fod trefniadau dathliadau'r ymfudo i Ohio yn mynd yn eu blaen yn hwylus, gan gynnwys cais am gymorth ariannol i Croeso Cymru.
f) PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc ddwyn sylw'r Cyngor Sir at dyfiant perth s'yn amharu ar yr heol ger Neuadd Pentref Cilcennin.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm